**DRAFFT**

PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

BLAENRAGLEN WAITH

Mai 2001 – Rhagfyr 2002

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Mae ei gylch gwaith wedi ei seilio ar bortffolio'r Gweinidog Datblygu Economaidd sy'n cynnwys:

- Mewn-fuddsoddiad a masnach, hybu cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol;
- Materion economaidd Ewropeaidd, yn cynnwys ariannu strwythurol;
- Datblygu dyfeisgarwch ac arloesi, ynni a TGCh yn y sector busnes;
- Polisi diwydiannol a chefnogi busnes; yn cynnwys materion cyflogaeth yn ymwneud â'r ochr ceisiadau (isafswm cyflog, oriau gwaith, ac ati);
- Twristiaeth; Urban development and regeneration.

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, a gwelir dyfyniad ohonynt yn Atodiad A.

**Nodau ac Amcanion y Pwyllgor**

2. Bydd y Pwyllgor yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yng nghynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru – "gwellcymru.com" – ac agenda gweithredu'r Llywodraeth Bartneriaeth – "Rhoi Cymru'n Gyntaf". Felly nod y Pwyllgor yw "cynorthwyo i greu economi flaengar, dynamig a mwy amrywiol lle caiff pawb gyfle i ffynnu".

**Y Cynlluniau Statudol**

3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ei

berthynas ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, y cynllun datblygu cynaliadwy a'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â busnes.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

4. Mae www.gwellcymru.com a'r Cytundeb Partneriaeth – 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' – yn nodi blaenoriaethau'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan mewn dau faes gweithredu allweddol yn www.gwellcymru.com: "Gwell economi, economi gryfach" (Paragraffau 4.6-4.9) a "Gwell cyfleoedd dysgu" (Paragraffau 4.4-4.5). Mae ei rôl mewn perthynas ag Adran 4 y Cytundeb Partneriaeth yn ymwneud ag Adran 4 Menter a Datblygu Economaidd.

5. Yn benodol, bydd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- ☐ adeiladu economi mwy datblygedig, cystadleuol a mwy amrywiol gyda sector mentrau bach a chanolig dynamig;
- ☐ cynyddu nifer ac ansawdd y swyddi a lleihau'r nifer sy'n anweithredol yn economaidd, yn enwedig yn yr ardaloedd llai llewyrchus;
- ☐ codi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a'i sefydlu fel man o'r radd flaenaf i fyw, astudio, ymweld â hi a chyflawni busnes ynddi;
- ☐ ysgogi datblygiad sy'n diogelu adnoddau naturiol ac yn parchu'r amgylchedd;
- ☐ buddsoddi mwy yn ein pobl ifanc a dysgu gydol oes fel bod pawb, a'r ieuenctid yn enwedig, yn ennill yr amrediad o wybodaeth a sgiliau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni eu potensial a ffynnu yn yr economi newydd;
- ☐ hybu dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd ac entreupreneuriaeth;
- ☐ gwella hyfforddiant, cynorthwyo busnesau bach i dyfu, hybu sefydlogrwydd ac annog technolegau newydd;
- ☐ sicrhau ein bod yn ymelwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd datblygu sy'n agored i'r economi Gymreig yn dilyn derbyn statws Amcan Un;
- ☐ parhau i chwilio am fewn-fuddsoddiad o ansawdd uchel a chryfhau'r gefnogaeth i fasnach tramor.

**BLAENRAGLEN WAITH**

6. Mae gwaith y Pwyllgor yn syrthio, yn fras, i 2 gategori – craffu ar waith Gweinyddiaeth ac Ysgrifennydd y Cynulliad, a chyfrannu at ddatblygu polisi'r Cynulliad trwy adolygiadau polisi a chadw ar y blaen i, ac ymateb i faterion wrth iddynt godi. Yn ymarferol, mae'r eitemau Agenda yn aml yn cynnwys agweddau ar y ddau gategori.

7. Ar y cyd â hyn mae gan y Pwyllgor amrediad o fusnes 'parhaus':

- derbyn ac ystyried adroddiadau rheolaidd Ysgrifennydd y Cynulliad i'r Pwyllgor;
- adolygiadau blynyddol o berfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a chynghori ynghylch eu datblygiad strategol;
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad;
- ystyried deddfwriaeth eilaidd fel bo'n briodol.

## A) Craffu

8. Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn trafod adroddiadau ar y materion cyfredol a phwysig gan Ysgrifennydd y Cynulliad ym mhob un o'i gyfarfodydd.

9. Bydd yn ymgymryd â'r dasg o graffu'n ffurfiol ar waith y Gweinidog Datblygu Economaidd yn erbyn y targedau a gyhoeddwyd yn 'Gwell Cymru'. Cyflawnir proses archwilio debyg y flwyddyn ganlynol hefyd.

10. Bydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Monitro'r Rhaglen, ynghylch cynnydd y gwahanol raglenni cefnogaeth Ewropeaidd a bydd yn cadw llygad barcud ar berfformiad y rhaglenni hynny.

11. Bydd yn ystyried perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ynghyd ag ystyried eu blaen gynlluniau. Bydd yn archwilio cynllun busnes yr Awdurdod Harbwr Caerdydd newydd.

## B) Datblygu Polisi

12. Mae'r Pwyllgor newydd ddechrau ar ei Adolygiad nesaf sy'n edrych ar y polisi ynni gyda'r ffocws ac gynaladwyedd trwy ffynonellau adnewyddadwy a thechnolegau glân. Roedd y blaenraglen waith flaenorol hefyd yn nodi fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu hystyried: Adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel y mae'n effeithio ar y sector busnes – a strategaeth twristiaeth Cymru. Bydd y rhain yn parhau i gael eu ystyried fel pynciau i'w hastudio yn y dyfodol. Dechreuir ar Adolygiad arall tuag at ddiwedd y cyfnod a gwmpasir gan y rhaglen waith hon.

13. Bydd yr ymgynghori ar Adolygiad Cefnogaeth Busnes a Datblygu Busnes y Pwyllgor yn dod i ben ym mis Mai 2001 a bydd y Pwyllgor yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac unrhyw ddatblygu pellach sy'n angenrheidiol.

14. Bydd y Pwyllgor yn cynghori ymhellach ar ddatblygiad y Strategaeth Datblygu

Economaidd Cenedlaethol, yng ngoleuni'r casgliadau'r broses ymgynghori a lansiwyd yn ddiweddar.

15. Bydd yn cynnig cyngor ar flaen gynlluniau Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a llythyrau arweiniad strategol y Gweinidog i'r cyrff hyn.

16. Bydd yn cadw trosolwg ac yn cynghori am ddatblygiadau yn economi Cymru – gan ymateb i faterion brys ac arwyddocaol fel bo angen.

17. Bydd yn cynghori ynghylch materion cyllidebol, ariannol, deddfwriaethol, penodiadau a materion eraill fel bo angen ac fel sy'n ofynnol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**<u>RHAGLEN FANWL</u>**

(gall y dyddiadau gael eu hadolygu)

**TYMOR YR HAF 2001**

**9 Mai**

Awdurdod Twristiaeth Prydain (BTA)

Cymdeithas Cyrchfannau Gwyliau Prydain (British Resorts Association)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, 'Cymru yn y Byd'

Cydlyniad Undeb Ewropeaidd

**Papur Gwybodaeth:**

Ystadegau Cymorth Rhanbarthol Dethol (RSA)

**23 Mai**

Cyngor Celfyddydau Cymru

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Ehangu’r UE

**Information paper:**

Office of National Statistics

**13 Mehefin**

Craffu ar waith y Gweinidog Datblygu Economaidd

Adroddiad Pwyllgor Monitro’r Rhaglen Amcan 3

Casgliadau’r ymgynghoriad Adolygiad Cefnogaeth Busnes

**27 Mehefin**

Conclusions from consultation on Business Support Review

Adroddiadau’r Pwyllgor Monitro’r Rhaglen Amcan 1 Conclusions from consultation on National Economic Development Strategy

Adroddiad Ymgynghorwyr ar amrywiadau Cyllidol

**11 Gorffennaf**

Cynllun Corfforaethol Awdurdod Datblygu Cymru a’r adolygiad diwedd blwyddyn

Cyllideb yr Adran Datblygu Economaidd

**Dyddiadau i’w trefnu**

Ystyried cynigion y Gweinidog mewn perthynas ag unrhyw swyddi a gollir yn Corus

Cynllun Busnes Awdurdod Harbwr Caerdydd

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes – Adolygiad Addysg Uwch

Porthladdoedd yng Nghymru

Trafodaeth bellach ar y materion economaidd yn ymwneud â datblygu TGCh

**TYMOR YR HYDREF**

**Dyddiadau i'w trefnu:**

Cyllideb yr Adran Datblygu Economaidd

Adroddiad hanner blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru

Cynllun corfforaethol newydd Bwrdd Croeso Cymru

Casgliadau'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol

**Papurau gwybodaeth:**

Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

Ystadegau Cymorth Rhanbarthol Dethol (RSA)

**Atodiad 1**

**CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGORAU PWNC**

Mae Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8 yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc

9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; ac yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Côd Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd.

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith olynol sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.